Hawdd ei ddeall

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Deddf Drafft Awtistiaeth i Gymru:

## Mesur Awtistiaeth (Cymru)



Dywedwch wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl cyn **17 Ebrill 2018** os gwelwch yn dda.

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o **'Dogfen Ymgynghorol Mesur Drafft Awtistiaeth (Cymru)'**

Chwefror 2018

# Sut i ddefnyddio’r ddogfen hon

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall. Mae’r geiriau a beth maen nhw’n feddwl yn hawdd i’w darllen a’u deall.



Efallai y byddwch angen help a chefnogaeth i ddarllen a deall y ddogfen yma. Gofynnwch i rhywun rydych yn ei adnabod i’ch helpu chi.

Efallai bod rhai geiriau yn anodd i’w deall. Mae’r rhain mewn **ysgrifen glas trwm** ac mae beth maen nhw’n feddwl yn cael ei esbonio yn y blwch o dan y gair.

Os oes unrhyw un o’r geiriau yn cael eu defnyddio yn nes ymlaen yn y llyfryn maen nhw’n cael eu dangos mewn ysgrifen glas normal, gallwch weld beth maen nhw’n feddwl yn y **Geiriau Pwysig** ar dudalen 25.

Lle mae’r ddogfen yn dweud ‘ni’, mae hyn yn meddwl Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

I gael rhagor o gopïau cysylltwch gyda:

Tom Jackson
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel, Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 0300 200 6565

E-bost: Consultation.AutismBill@assembly.wales

Cafodd y ddogfen yma ei gwneud yn un hawdd ei deall gan Hawdd ei Ddeall Cymru gan ddefnyddio Photosymbols.

# Cynnwys


| | Tudalen |
| --- | --- |
| Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon | 2 |
| Cyflwyniad | 4 |
| Strategaeth Awtistiaeth | 8 |
| Beth ddylai fod yn y strategaeth awtistiaeth | 11 |
| Ysgrifennu'r canllaw | 18 |
| Beth ddylai fod yn y canllaw | 19 |
| Casglu gwybodaeth am anhwylder sbectrwm awtistiaeth | 23 |
| Codi ymwybyddiaeth | 24 |
| Geiriau pwysig yn y ddeddf sydd yn cael ei chynnig | 25 |



# Cyflwyniad

Fy enw ydy Paul Davies. Rwy'n **Aelod Cynlliad (AC)** Preseli Sir Benfro.



Mae **Cynulliad Cenedlaethol Cymru** wedi cytuno i adael imi geisio cael deddf newydd i Gymru.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru** ydy'r senedd i Gymru. Mae:



- ganddi 60 o Aelodau Cynulliad sydd wedi cael eu hethol




- yn gwneud deddfau



- yn penderfynu faint o rai trethi fydd yng Nghymru




- yn gweld os ydy Llywodraeth Cymru yn gwneud eu gwaith yn dda.





Rwyf eisiau i'r ddeddf newydd yma helpu plant ac oedolion yng Nghymru sydd ag **anhwylder sbectrwm awtistiaeth** i gael y gefnogaeth maen nhw angen.



Mae **anhwylder sbectrwm awtistiaeth** yn aml yn cael ei alw'n 'Awtistiaeth'.

Mae'r ddeddf newydd sydd yn cael ei chynnig yn dweud bod anhwylder sbectrwm awtistiaeth yn meddwl:

- beth bynnag mae Corff Iechyd y Byd yn ddweud beth mae **anhwylder sbectrwm awtistiaeth** yn meddwl; ac
- unrhyw **anhwylderau niwroddatblygiadol** y mae Gweinidogion Llywodraeth Cymru yn ddweud a ddylai gael eu trin yn yr un ffordd ag Awtistiaeth.



**Anhwylder niwroddatblygiadol** ydy pan mae rhywbeth yn mynd o'i le gyda'r ffordd y mae'r ymennydd yn datblygu.




Rwy'n galw'r ddeddf yma yn **Mesur Awtistiaeth (Cymru)**.




Mae gen i tan 13 Gorffennaf 2018 i ysgrifennu'r **Mesur Awtistiaeth (Cymru)**.




Mae'r ddogfen ma yn gofyn eich barn am y **Mesur Awtistiaeth (Cymru)**.




Os bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cytuno gyda fy neddf, yna fe fydd yn cael ei galw yn **Ddeddf Awtistiaeth (Cymru) 2018**.



Mae'r ddeddf yma sy'n cael ei chynnig yn dweud beth sy'n rhaid i **Lywodraeth Cymru** ei wneud i gefnogi plant ac oedolion gydag awtistiaeth yng Nghymru. Oedolyn ydy unrhyw un dros 18 oed. Plentyn ydy unrhyw un dan 18 oed.




**Llywodraeth Cymru** ydy'r llywodraeth i Gymru. Mae:

- ganddi Weinidogion sydd yng gofal pethau




- yn gwneud yn siŵr bod deddfau a pholisïau yn cael eu gweithredu.




Mae'n dweud y dylai awdurdodau lleol a'r GIG ddilyn y ddeddf yma, a'r canllaw amdani.



**Awdurdod lleol** ydy eich cyngor lleol.




Mae **GIG** yn meddwl llawer o wasanaethau iechyd gwahanol.





Mae Llywodraeth Cymru yn gallu gwneud rheolau newydd i wneud yn siŵr bod y ddeddf yma'n cael ei dilyn yn gywir. Er enghraifft, maen nhw'n gallu gwneud yn siŵr bod cyrff eraill yn gorfod dilyn y canllaw i'r ddeddf yma.



Rhaid i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gytuno ar unrhyw reolau newydd.





Mae'r ddeddf yma'n dechrau 3 mis ar ôl i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gytuno gyda hi.




# Strategaeth Awtistiaeth

The proposed law says that the Welsh Government must write an autism **strategy**.




**Strategaeth** ydy cynllun sydd yn dweud beth fydd yn cael ei wneud i gyrraedd ein nod bod pobl ag awtistiaeth yn cael y gefnogaeth maen nhw angen.




Fe fydd y strategaeth yn dweud sut i ateb anghenion pobl gydag anhwylder sbectrwm awtistiaeth.



Fe fydd yn dweud sut y bydd gwasanaethau'n cael eu gwneud yn well i pobl gydag anhwylder sbectrwm awtistiaeth.



Fe ddylai'r strategaeth gael ei ddangos i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Fe ddylai hyn ddigwydd mor fuan â phosibl.





Fe ddylai'r strategaeth gael ei ysgrifennu o fewn 6 mis i'r amser y mae'r ddeddf yma'n dechrau.




# Edrych ar y strategaeth

Rhaid i Lywodraeth Cymru edrych yn aml ar y strategaeth awtistiaeth. Maen nhw'n gallu wneud newidiadau iddo os oes angen.



Os ydyn nhw'n gwneud newidiadau i'r strategaeth rhaid iddyn nhw eu dangos i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Rhaid iddyn nhw wneud hyn mor fuan â phosibl.

# Adrodd ar y strategaeth awtistiaeth




Rhaid i Lywodraeth Cymru gael adroddiad wedi'i ysgrifennu am pa mor dda mae'r strategaeth yn gweithio.



Fe ddylai rhywun annibynnol ysgrifennu'r adroddiad. Mae hyn yn meddwl nad oes ganddyn nhw ddim byd i'w wneud gyda'r strategaeth awtistiaeth.




Fe ddylai adroddiad gael ei ysgrifennu o leiaf bob 3 blynedd.



Fe ddylai'r adroddiad gael ei ddangos i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn syth ar ôl ei gorffen.

# Ysgrifennu'r strategaeth awtistiaeth



Rhaid i Lywodraeth Cymru ofyn i bobl beth maen nhw'n feddwl ddylai fod yn y strategaeth.

Er enghraifft, fe ddylen nhw holi:



- pobl sydd yn darparu gwasanaethau i bobl gydag anhwylder sbectrwm awtistiaeth



- pobl gydag anhwylder sbectrwm awtistiaeth



- grwpiau sydd yn gweithio gyda phobl ag anhwylder sbectrwm awtistiaeth.



Rhaid iddyn nhw ofyn beth mae pobl yn feddwl am unrhyw newidiadau mawr maen nhw'n eu gwneud i'r strategaeth.

# Beth ddylai fod yn y strategaeth awtistiaeth



Rhaid i'r strategaeth awtistiaeth ddisgrifio'r ffordd orau o roi **diagnosis** o anhwylder sbectrwm awtistiaeth.

**Diagnosis** ydy pan mae tîm o bobl yn gweithio allan os oes gan berson anhwylder sbectrwm awtistiaeth.




Rhaid i'r strategaeth awtistiaeth esbonio beth ydy'r ffordd orau o wneud **asesiad**.

**Asesiad** ydy pan mae rhywun yn edrych ar y gofal a'r gefnogaeth mae person eu hangen.



Rhaid i'r strategaeth awtistiaeth esbonio beth ydy'r ffordd orau i gynllunio gofal a chefnogaeth i bobl gydag anhwylder sbectrwm awtistiaeth.




Fe ddylai'r strategaeth helpu awdurdodau lleol a'r GIG i ysgrifennu **llwybrau** clir.

Dogfen ydy **llwybr**. Mae'n dweud pa wasanaethau sydd ar gael a sut mae pobl yn gallu eu cael. Maen nhw'n wasanaethau y mae pobl gydag anhwylder sbectrwm awtistiaeth efallai eu hangen.



Fe ddylai Llwybrau ddangos sut y mae pobl yn gallu cael y gwasanaethau maen nhw angen.




Dylai'r strategaeth awtistiaeth ddweud y dylai diagnosis ddigwydd mor fuan â phosibl. Fe ddylai ddigwydd o fewn yr amserlenni sydd wedi cael eu hysgrifennu yn y canllawiau cenedlaethol.




Y **Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal** sydd yn ysgrifennu'r canllawiau. Mae'n grŵp swyddogol sydd yn ysgrifennu canllawiau ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol.



Fe ddylai'r strategaeth ddweud bod rhaid cael timau i roi diagnosis os oes gan bobl anhwylder sbectrwm awtistiaeth neu beidio. Fe ddylai pobl gyda gwahanol swyddi fod yn y timau.




Fe ddylai'r strategaeth awtistiaeth ddweud bod angen gwneud asesiad o pa ofal a chefnogaeth mae person eu hangen o fewn 2 fis i gael diagnosis.



Fe ddylai'r strategaeth awtistiaeth ddweud na ddylai pobl gael eu troi i ffwrdd o wasanaethau oherwydd lefel eu dealltwriaeth, sy'n cael ei alw'n IQ, neu oherwydd bod ganddyn nhw salwch.

Fe ddylai'r strategaeth ddweud sut i ateb anghenion pobl gydag anhwylder sbectrwm awtistiaeth. Fe ddylai ddweud y dylai gwahanol wasanaethau ateb eu hanghenion. Er enghraifft:



- Gwasanaethau Iechyd



- Addysg



- Cefnogaeth i gael swydd



- Tai




- Gwasanaethau yn Gymraeg



- Gwasanaethau cyhoeddus eraill



- Cefnogaeth i fod yn rhan o’r gymuned



- Eiriolaeth. Mae hyn yn meddwl rhywun i siarad drostyn nhw.



Fe ddylai’r strategaeth wneud yn siŵr bod yna ddigon o wasanaethau yng Nghymru. Gwasanaethau sydd yn cefngi nodau’r strategaeth.



Fe ddylai pawb sydd gydag anhwylder sbectrwm awtistiaeth allu cael y gwasanaethau yma.



Fe ddylai'r strategaeth ddweud sut i gefnogi plant gydag anhwylder sbectrwm awtistiaeth wrth iddyn nhw ddod yn oedolion.



Fe ddylai'r strategaeth ddweud pa mor bwysig ydy teuluoedd a gofalwyr. Fe ddylai ddweud sut y gallan nhw gael eu cefnogi i helpu eu hanwyliaid.



Fe ddylai'r strategaeth ddweud pa mor bwysig ydy gwrando ar beth mae pobl eisiau. Fe ddylai gwasanaethau gael eu cynllunio cymaint ag sy'n bosibl o gwmpas beth mae'r person eisiau. A'u teuluoedd a'u gofalwyr.



Fe ddylai'r strategaeth ddweud pa mor bwysig ydy hi i ddarganfod ffyrdd newydd a gwell o ddarparu gwasanaethau.



Fe ddylai'r strategaeth helpu i gynnal ymchwil newydd ar anhwylder sbectrwm awtistiaeth.



Fe ddylai'r strategaeth ddweud sut y dylai gwybodaeth am anhwylder sbectrwm awtistiaeth gael ei gasglu.



Fe ddylai'r strategaeth ddweud sut y bydd Llywodraeth Cymru yn codi ymwybyddiaeth o anghenion pobl gydag anhwylder sbectrwm awtistiaeth.



Fe ddylai'r strategaeth ddweud pwy ydy'r staff pwysicaf sydd yn gallu darparu cefnogaeth. Fe ddylai ddweud pa hyfforddiant maen nhw ei angen i'w helpu i gefnogi pobl gydag anhwylder sbectrwm awtistiaeth.



Fe ddylai'r strategaeth ddweud sut y dylai gwasanaethau gael eu trefnu a'u rheoli. Mae hyn i wneud yn siŵr bod y strategaeth awtistiaeth yn cael ei ddilyn.





Mae gan Lywodraeth Cymru bwerau yn ôl y gyfraith i ddweud y dylai pethau eraill fod yn y strategaeth, os ydyn nhw'n meddwl eu bod yn bwysig.

# Ysgrifennu canllaw




Rhaid i Lywodraeth Cymru ysgrifennu canllaw i fynd gyda'r strategaeth awtistiaeth. Fe ddylai'r canllaw ddweud beth sydd angen ei wneud i ddilyn y strategaeth.




Rhaid ysgrifennu ac anfon y canllaw allan 3 mis ar ôl gorffen y strategaeth.




Rhaid i Lywodraeth Cymru edrych ar y canllaw yn aml. Rhaid gweld os ydy'r canllaw yn gweithio'n iawn.




Os ydy'r strategaeth awtistiaeth wedi newid rhaid i Lywodraeth Cymru weld os oes angnewid y canllaw.



Mae Llywodraeth Cymru yn gallu gwneud newidiadau i'r canllaw i'w wneud yn well. Os ydyn nhw'n gwneud newidiadau dylid anfon y canllaw newydd allan mor fuan â phosibl.

# Beth ddylai fod yn y canllaw




## Fe ddylai'r canllaw ddweud:

- Sut y mae timau o bobl yn gallu gweithio allan orau os oes gan berson anhwylder sbectrwm awtistiaeth.



- Pa wasanaethau sydd eu hangen i roi diagnosis o anhwylder sbectrwm awtistiaeth.


- Pwy ddylai fod yn y tîm sydd yn gwneud diagnosis. Fe ddylai pobl gyda gwahanol swyddi fod yn y timau. Er enghraifft:



  - **Seicolegydd**. Mae seicolegydd yn helpu pobl i ddysgu sut i ymdopi gyda phroblemau iechyd meddwl



  - **Seiciatrydd**. Seiciatrydd ydy meddyg ar gyfer iechyd meddwl.



- **Therapydd iaith a lleferydd**. Maen nhw'n trin pobl sydd yn ei chael yn anodd i siarad, bwyta, yfed neu lyncu.



- **Therapydd galwedigaethol**. Maen nhw'n helpu pobl i aros yn annibynnol. Maen nhw'n eu cefnogi i allu wneud pethau bob dydd.



- **Therapydd ymddygiad**. Maen nhw'n helpu pobl i ddod dros broblemau gyda'r ffordd maen nhw'n ymddwyn.



- **Gweithiwr cymdeithasol**. Maen nhw'n cefnogi pobl drwy amser caled. Maen nhw'n gwneud yn siŵr bod pobl yn cael eu cadw'n ddiogel.

Su y dylai gwybodaeth am anhwylder sbectrwm awtistiaeth gael ei:



- casglu




- dangos i bobl.



Pa hyfforddiant y bydd pobl  sydd yn cefnogi pobl gydag anhwylder sbectrwm awtistiaeth ei gael.



Sut y dylai gwasanaethau gael eu rheoli mewn ardaloedd lleol.



Rhaid i Lywodraeth Cymru ofyn i bobl beth maen nhw'n feddwl ddylai fod yn y canllaw.

Er enghraifft fe ddylen nhw ofyn i:



- pobl sydd yn darparu gwasanaethau i bobl gydag anhwylder sbectrwm awtistiaeth



- pobl gydag anhwylder sbectrwm awtistiaeth



- grwpiau sydd yn gweithio gyda phobl ag anhwylder sbectrwm awtistiaeth.




Rhaid i Lywodraeth Cymru ofyn i bobl beth maen nhw'n feddwl am unrhyw newidiadau mawr maen nhw'n eu gwneud i'r canllaw.

# Casglu gwybodaeth am anhwylder sbectrwm awtistiaeth



Rhaid i Lywodraeth Cymru gasglu gwybodaeth am anhwylder sbectrwm awtistiaeth. Rhaid gwneud yn siŵr bord yr wybodaeth yn gywir. A'i ddiweddaru. A gadael i bobl eraill ei weld.




Mae Llywodraeth Cymru yn gallu gofyn i gyrff eraill am wybodaeth am anhwylder sbectrwm awtistiaeth heb enwau pobl gydag anhwylder sbectrwm awtistiaeth arno.




Rhaid i awdurdodau lleol a'r GIG roi gwybodaeth i Lywodraeth Cymru. Oni bai bod deddf arall yn dweud nad ydyn nhw'n cael gwneud hynny.

# Codi Ymwybyddiaeth




Pan fydd y strategaeth awtistiaeth yn cael ei ysgrifennu rhaid i Lywodraeth Cymru ddechrau codi ymwybyddiaeth o anghenion pobl gydag anhwylder sbectrwm awtistiaeth. Rhaid iddyn nhw ddal i wneud hyn.

Rhaid i Lywodraeth Cymru helpu pobl i ddeall anghenion pobl gydag anhwylder sbectrwm awtistiaeth. Rhaid dweud wrth:



- y cyhoedd



- cyflogwyr



- pobl sydd yn darparu gwasanaethau i bobl gydag anhwylder sbectrwm awtistiaeth.




Rhaid i Lywodraeth Cymru ysgrifennu am pa mor dda mae codi ymwybyddiaeth wedi gweithio. Rhaid iddyn nhw ysgrifennu adroddiad am pa mor dda mae'r strategaeth yn gweithio.

# Geiriau pwysig yn y ddeddf newydd sydd yn cael ei chynnig

## Anhwylder Niwroddatblygiadol

Anhwylder niwroddatblygiadol ydy pan mae rhywbeth yn mynd o'i le gyda'r ffordd y mae'r ymennydd yn datblygu.

## Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth

Yn aml mae Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth yn cael ei alw'n 'Awtistiaeth.'

Mae'r ddeddf newydd sydd yn cael ei chynnig yn dweud bod anhwylder sbectrwm awtistiaeth yn meddwl:

- beth bynnag mae Corff iechyd y Byd yn ei ddweud mae Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth yn ei feddwl; ac
- unrhyw anhwylderau niwroddatblygiadol y mae Gweinidogion Cymru yn ddweud y dylid eu trin yn yr un ffordd ag Awtistiaeth.

## Asesiad

Asesiad ydy pan mae rhywun yn edrych i weld pa gefnogaeth mae person gydag anhwylder sbectrwm awtistiaeth ei angen.

## Awdurdod Lleol

Awdurdod Lleol ydy eich cyngor lleol.

## Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru ydy'r senedd i Gymru. Mae:

- ganddi 60 o Aelodau Cynulliad sydd wedi cael eu hethol
- yn gwneud deddfau
- yn penderfynu faint o rai trethi fydd yng Nghymru
- yn gweld os ydy Llywodraeth Cymru yn gwneud eu gwaith yn dda.

### Diagnosis
Diagnosis ydy pan mae tîm o bobl yn gweithio allan os oes gan berson anhwylder sbectrwm awtistiaeth.

### Diffiniad
Diffiniad ydy esboniad. Fe fydd y diffiniad yn y Mesur yma yn esbonio beth ydy Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth.

### GIG
Mae'r GIG yn meddwl llawer o wahanol wasanaethau iechyd.

### Llywodraeth Cymru
Llywodraeth Cymru ydy'r llywodraeth i Gymru. Mae:

- ganddi Weinidogion sydd yng ngofal pethau
- yn gwneud yn siŵr bod deddfau a pholisïau yn cael eu gweithredu.

### Llwybr
Dogfen ydy Llwybr. Mae'n dweud pa wasanaethau sydd ar gael a sut mae pobl yn gallu eu cael nhw. Gwasanaethau ydyn nhw y mae pobl ag anhwylder sbectrwm awtistiaeth efallai eu hangen.

### Mesur drafft
Mesur drafft ydy geiriau am ddeddf sydd yn cael ei chynnig. Dydy e ddim eto wedi cael ei gyflwyno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae hynny'n meddwl y gallaf ei newid os ydw i eisiau.

Yna fe fydd yn cael ei alw yn Fesur pan fydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn edrych arno.

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gallu newid y Mesur.

### Strategaeth
Strategaeth ydy cynllun sydd yn dweud beth fydd yn cael ei wneud i gyrraedd ein nod o gael y gefnogaeth mae pobl gydag anhwylder sbectrwm awtistiaeth angen..